Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda University Health Board

DIOGEL | CYNALIADWY | HYGYRCH | CAREDIG
SAFE | SUSTAINABLE | ACCESSIBLE | KIND

# Cynllun Clwstwr Tywi / Taf 2024/25



# Tywi / Taf

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda University Health Board

DIOGEL | CYNALIADWY | HYGYRCH | CAREDIG
SAFE | SUSTAINABLE | ACCESSIBLE | KIND

Mae Tywi Taf yn gweithio i ddatblygu system integredig o ofal sylfaenol, cymunedol a chymdeithasol lle mae cleifion yn gallu llifo drwy'r sectorau yn ôl yr angen yn ystod eu taith yn seiliedig ar lwybrau ar gyfer gwahanol gyflyrau. Ein nod yw cefnogi ein poblogaeth leol i aros yn eu cartrefi eu hunain; gyda phwyslais ar les y boblogaeth a chysylltiadau cymunedol trwy sefydlu mwy o gysylltiadau gyda gwasanaethau partner. Anelwn at Ardal gwbl integredig gyda mwy o bwyslais ar gydgysylltu gwasanaethau a chanolbwyntio ar ofal rhagweledol ac ataliol i wella'r cymorth a ddarperir i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau, eu gofalwyr a'u teuluoedd i reoli eu hiechyd a'u llesiant eu hunain yn unol â "Cymru Iachach: ein Cynllun ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol"

## Am ein Poblogaeth

Dynion – **49.0%**
Menywod – **51.0%**

65+ oed – **26.4%**
85+ oed – **3.2%**

Mae **46.7%** o bobl mewn iechyd cyffredinol da iawn

**PREVALENCE OF CHRONIC CONDITIONS**
*(PRIMARY CARE DATA 2021/22, ARROW INDICATES LONG TERM TREND)*

| | | |
|---|---|---|
| | CHD (SECONDARY PREVENTION) 4.07% ↓ | CANCER 3.91% ↑ |
| ASTHMA 6.87% ↑ | HYPERTENSION 16.38% ↑ | DIABETES (17+ Population) 8.00% ↑ |
| COPD 1.75% ↓ | MENTAL HEALTH 1.09 ↑ | STROKE 2.62% ↑ |
| ATRIAL FIBRILLATION 3.28% ↑ | HEART FAILURE 1.45% ↑ | DEMENTIA 0.75% ↑ |

**RISK FACTORS**
*(National Survey for Wales 2021/22, Adult population 16+ County level data only – arrow indicates comparison to HDd UHB ave.)*

| | |
|---|---|
| | ACTIVE FOR <30 MINUTES/ WEEK 22% ↓ |
| CURRENT SMOKER 16.0% ↑ | ALCOHOL CONSUMPTION ABOVE GUIDELINES 15.0% ↓ |
| CHILDHOOD OBESITY* 13% ↑ | E-CIGARETTE USER 6.0% ↑ |
| OVERWEIGHT OR OBESE (Adults 16+ BMI >25) 68.0% ↑ | FEWER THAN 2 HEALTHY BEHAVIOURS 8.0% ↓ |

**SCREENING UPTAKE**

| | | | |
|---|---|---|---|
| BOWEL 70.0% ↑ | CERVICAL 69.0% ↓ | BREAST 74.6% → | AAA 66.2% → |

**IMMUNISATION UPTAKE**

| |
|---|
| UP TO DATE WITH CHILDHOOD VACCINES BY AGE FOUR 88.11% |
| INFLUENZA 65+ 76.68% |
| INFLUENZA (At risk 6 mths to 64 yrs) 47.04% |
| INFLUENZA 2-3 YEAR OLDS 59.45% |

## Am ein Gwasanaethau

- **8** Meddygfa gyda 2 Feddygfa Cangen
- **7** Deintyddfa ac 1 Practis Orthodontig
- **13** Fferyllfa Gymunedol
- **11** Practis Optometreg
- **1** Ysbyty (Glangwili)
- **1** Ysbyty Cymunedol (Llanymddyfri)
- **11** Cartref Nyrsio a Phreswyl
- 1 Tîm Adnoddau Cymunedol

## Rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023:

- Roedd **475,372** o apwyntiadau meddyg teulu ac roedd **59%** ohonynt wyneb yn wyneb
- Roedd **38%** o'r apwyntiadau yn rhai brys
- Bu **408** o ymgynghoriadau yn y gwasanaeth PIPs ar gyfer anhwylderau cyffredin
- Dosbarthwyd **1,360,389** o eitemau gan Fferyllfeydd
- Cafodd **400** o bobl eu gweld gan y Gwasanaeth Optometreg Rhagnodi Annibynnol

## Cyllideb Clwstwr (Cylchol).

- Y gwariant ar gyfer 2023/24 yw **£475k**
- Y gyllideb ar gyfer 2024/25 yw **£435k**

## Blaenoriaethau Clwstwr 2023/24

- **Eiddilwch** yw'r maes mwyaf sylweddol o gynnydd yn anghenion cleifion o fewn y Bwrdd Iechyd ac fe'i nodwyd fel un o'r prif heriau i 2Ts. Dyma'r cleifion sydd fwyaf tebygol o gael eu derbyn a'u haildderbyn i'r ysbyty. Bydd rheoli'r cleifion hyn yn effeithiol ac yn rhagweithiol yn eu cartrefi eu hunain yn gwella eu profiad o ofal, yn gwella eu canlyniadau ac yn lleihau costau gofal acíwt a diwrnodau gwely.
- Gwell mynediad i wasanaethau **Iechyd Meddwl** lefel isel, canolig ar gyfer y boblogaeth.
- Gwella a pharhau i ddatblygu **gwaith tîm amlddisgyblaethol** o fewn Practisau Meddygon Teulu. Mae model tîm amlddisgyblaethol yr Ardal Leol yn cefnogi cydweithio agos rhwng gofal cymunedol a gofal sylfaenol. Disgwylir y bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar reoli achosion yn rhagweithiol ar gyfer y boblogaeth fwy bregus yn y gymuned.

## Blaenoriaethau Clwstwr 2024/25

- Mae **eiddilwch** yn flaenoriaeth barhaus, a'n nod yw lleihau derbyniadau brys a hyd arhosiad cyfartalog yn yr ysbyty .
- Mae'r Clwstwr wedi'i gofrestru ar hyn o bryd mewn prosiect EQUiP i nodi, cydgysylltu, cynllunio a chefnogi pobl sydd mewn mwy o berygl o fod angen **gofal brys neu argyfwng.**
- Mae'r Clwstwr wedi ail-dendro yn ddiweddar ac wedi dyfarnu contract i MIND ar gyfer eu gwasanaethau monitro gweithredol ar gyfer symptomau **iechyd meddwl** isel i ganolig.